LDP

# Ceredigion

## Cynynllun Datblygu Lleol
## 2007 - 2022

## Canllawiau Cynllunio Atodol
## Y Gymuned a'r Iaith Gymraeg

## Asesiad Effaith Cymunedol ac Ieithyddol

## Taflen Gymorth

Cyngor Sir
CEREDIGION

CEREDIGION
County Council

| Agwedd | Cwestiynau | Ble mae modd canfod gwybodaeth? Ffactorau i'w hystyried |
|---|---|---|
| **A. Nodweddion Poblogaethau** | **1.** A ydy'r datblygiad yn debygol o arwain at gynnydd / gostyngiad yn y boblogaeth? | Maint a graddfa'r datblygiad arfaethedig - cais cynllunio. Nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg yn y gymuned – **gweler atodiad 3 y Canllawiau Cynllunio Atodol** |
| | **2.** A ydy'r datblygiad yn debygol o arwain at fwy o fewnfudo? | Tystiolaeth o dueddiadau mudo - Data'r cyfrifiad.<br>Faint o aelwydydd sy'n debygol o symud i'r datblygiad? Beth fydd eu maint? A gaiff y datblygiad ei farchnata'n lleol / yn genedlaethol? |
| | **3.** A ydy'r datblygiad yn debygol o arwain at fwy o allfudo? | Tystiolaeth o dueddiadau mudo – Data'r cyfrifiad |
| | **4.** A ydy'r datblygiad yn debygol o arwain at newid yn strwythur oed y gymuned? | Proffil strwythur oed – Data'r cyfrifiad<br>Ar gyfer pa fath o dai ac aelwydydd y mae'r datblygiad arfaethedig wedi'i anelu atynt?<br><br>Cyfrifiad Proffil Iaith ac Oedran<br>Statiaith.com (gwefan ddwyieithog)<br>http://statiaith.com/ |
| **B. Ansawdd Bywyd** | **5.** A ydy'r datblygiad yn debygol o effeithio ar iechyd y bobl leol? | Pellter o gyfleusterau a gwasanaethau iechyd e.e. Meddygfa ac ysbyty. Y cynigion sy'n rhan o'r dyluniad gan gynnwys cartrefi gydol oes – cais cynllunio<br>Dod o hyd i Feddyg Teulu<br>Safonau Cartref Gydol Oes<br>Sut mae'r datblygiad arfaethedig yn hyrwyddo ffordd iach o fyw? Hygyrchedd i lwybrau troed lleol, y ddarpariaeth o ran mannau agored – cais cynllunio (Datganiad Dylunio a Mynediad) |
| | **6.** A ydy'r datblygiad yn debygol o effeithio ar amwynder yr ardal leol? | Manylion y dyluniad – cais cynllunio (Datganiad Dylunio a Mynediad) |
| | **7.** A ydy'r datblygiad yn debygol o arwain at fygythiad y gallai troseddau a thrais gynyddu yn y gymuned? | Manylion y dyluniad – cais cynllunio (Datganiad Dylunio a Mynediad)<br>A ydy'r datblygiad yn edrych i lawr ar fannau cyhoeddus neu'n creu mannau cuddiedig / tywyll? |
| **C. Ffactorau economaidd** | **8.** A ydy'r datblygiad yn debygol o effeithio'n andwyol ar fusnesau lleol? | Graddfa'r datblygiad – cais cynllunio. Tystiolaeth o'r gystadleuaeth leol a'r busnesau presennol – astudiaeth o'r anghenion economaidd, gwybodaeth leol. Y cynigion sydd yn y cynllun iaith ar gyfer datblygiadau arfaethedig.<br>Ystadegau'r gymdogaeth<br>www.comisiynyddygymraeg.cymru/hybu |
| | **9.** A ydy'r datblygiad yn debygol o effeithio ar | Y swyddi a ragwelir a fydd yn cael eu cadw / eu creu fel rhan o'r datblygiad a gaiff ei gwblhau a'r |

| Agwedd | Cwestiynau | Ble mae modd canfod gwybodaeth?<br>Ffactorau i'w hystyried |
|---|---|---|
| | swyddi lleol? | cam datblygu.<br>Canllawiau Comisiynydd y Gymraeg: Recriwtio a'r Gymraeg |
| | **10.** A ydy'r datblygiad yn debygol o arwain at fwy o amrywiaeth economaidd? | Ym mha sectorau y crëwyd y swyddi o gymharu â'r sectorau diwydiant lleol – ystadegau'r farchnad lafur leol |
| | **11.** A ydy'r datblygiad yn debygol o effeithio ar gyflogau lleol? | Tystiolaeth o gyflogau lleol ac incwm yr aelwydydd – Arolwg Blynyddol Oriau ac Enillion CACI<br>Cyflogau a ragwelir - Cynllun Busnes |
| | **12.** A ydy'r datblygiad yn debygol o effeithio ar gost tai ar gyfartaledd? | Tystiolaeth o fforddiadwyedd - cymharu gwerthoedd tai ag incwm lleol. Maint y cynnig, mesurau cynaliadwyedd a chostau rhedeg - cais cynllunio. Tystiolaeth o'r anghenion tai lleol – Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (Gwefan CSC) |
| **D. Y Ddarpariaeth o ran Seilwaith** | **13.** A ydy'r datblygiad yn debygol o effeithio ar ysgolion lleol? | Mesur pellter i'r ysgolion agosaf.<br>Data'r ysgolion<br>Y math o aelwydydd y mae'r datblygiad wedi'i anelu ato – a ydyw'n debygol y bydd cynnydd yn y nifer o blant yn y gymuned? |
| | **14.** A ydy'r datblygiad yn debygol o effeithio ar y ddarpariaeth gofal iechyd? | Mesur pellter i'r gwasanaethau lleol<br><br>Gwasanaethau iechyd lleol Ceredigion ar wefan Bwrdd Iechyd Hywel Dda<br>http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/862/hafan<br><br>Fframwaith i wella gwasanaethau cyfrwng Cymraeg yn y Gwasanaeth Iechyd a'r Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Fframwaith Strategol 'Mwy na Geiriau' |
| | **15.** A ydy'r datblygiad yn debygol o effeithio ar y ddarpariaeth leol o ran cyfleusterau/gwasanaethau cymunedol neu hamdden? | Y cyfleusterau / y ddarpariaeth a gynigir yn y datblygiad a/neu'r ddarpariaeth agosaf. Nodi cyfleusterau lleol y gallai trigolion y datblygiad eu cefnogi a pha mor hygyrch yw'r cyfleusterau hynny. |
| | **16.** A ydy'r datblygiad yn debygol o effeithio ar y gwasanaethau lleol megis, siopau / swyddfeydd post / banciau / tafarndai? | Mesur pellter i'r ddarpariaeth sydd gerllaw. Nodi gwasanaethau lleol y gallai trigolion y datblygiad eu defnyddio a pha mor hygyrch yw'r cyfleusterau hynny. |
| **E. Agweddau Cymdeithasol a Diwylliannol** | **17.** A oes posibilrwydd y gallai'r datblygiad arwain at densiynau, gwrthdaro neu raniadau difrifol o fewn y cymunedau? | Tystiolaeth o ddiwylliant a thraddodiadau lleol - gwybodaeth ac ymchwil lleol<br>Strategaeth Iaith Gymraeg Ceredigion<br>Ystadegau'r Gymdogaeth<br>Ystyried maint y datblygiad ac a ydy'r aelwydydd yn gymwys ar gyfer tai fforddiadwy / Tan 6. |

| **Agwedd** | **Cwestiynau** | **Ble mae modd canfod gwybodaeth?**<br>**Ffactorau i'w hystyried** |
|---|---|---|
| | **18.** A oes posibilrwydd y gallai'r datblygiad arwain at newidiadau yn y traddodiadau/diwylliant lleol Cymraeg/Cymreig? | Tystiolaeth o ddiwylliant a thraddodiadau lleol – gwybodaeth ac ymchwil lleol<br>Data Comisiynydd y Gymraeg<br>Ystyried maint y datblygiad<br>Adroddiadau Comisiynydd y Gymraeg |
| | **19.** A oes posibilrwydd y gallai'r datblygiad effeithio ar grwpiau gwirfoddol / grwpiau ieuenctid / gweithgareddau lleol? | Tystiolaeth o grwpiau lleol a'u gweithgareddau.<br>Cysylltu â Chyngor Ceredigion neu'r Cynghorau Cymuned / Tref lleol<br>Nodi gweithgareddau gwirfoddol lleol y gallai trigolion y datblygiad eu cefnogi a pha mor hawdd yw mynd at y grwpiau hyn.<br>Menter Iaith Cered www.cered.org<br>Symud i Geredigion<br>www.symud.cymru<br>Adnodd Iaith Dyfodol Dwyieithog BGLl Ceredigion |